LANRVN12

Gweinyddu cymorth cyntaf brys a chynorthwyo gyda’r gwaith o ddarparu triniaeth frys i gleifion milfeddygol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweinyddu cymorth cyntaf brys i gleifion milfeddygol a gallu cynorthwyo gyda’r gwaith o ddarparu triniaeth frys i gleifion milfeddygol.

Mae’r safon hon yn addas ar gyfer nyrsys milfeddygol cofrestredig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal asesiad cychwynnol o gyflwr corfforol a meddygol y claf milfeddygol
2. asesu risg i'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun a chydweithwyr wrth weinyddu cymorth cyntaf a chynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu triniaeth frys i gleifion milfeddygol
3. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol (PPE) gofynnol
4. dewis a rhoi gweithdrefnau rheoli heintiau ymarfer milfeddygol ar waith ar gyfer ardal y filfeddygfa lle'r ydych yn gweithio
5. asesu anghenion lles anifeiliaid y claf milfeddygol a sut gellir mynd i'r afael â nhw neu eu gweithredu tra'u bod yn eich gofal
6. sicrhau bod systemau hanfodol y claf milfeddygol yn weithredol
7. dadebru i gynnal bywyd lle bo angen
8. archwilio'r claf milfeddygol i gynnal asesiad cyflawn o'i gyflwr nid safle'r anaf yn unig
9. cael gwybodaeth am y claf milfeddygol lle y bo'n bosibl (e.e. cyflyrau meddygol perthnasol neu hanes diweddar o ofal milfeddygol)
10. blaenoriaethu eich gweithredoedd cymorth cyntaf i sefydlogi'r claf milfeddygol
11. gweinyddu cymorth cyntaf i'r claf milfeddygol yn unol â gweithdrefnau'r ymarfer o fewn cyfyngiadau eich cyfrifoldeb
12. monitro canlyniadau'r cymorth cyntaf a weinyddwyd gennych
13. cynorthwyo'r llawfeddyg milfeddygol i ddarparu triniaeth frys
14. hysbysu'r llawfeddyg milfeddygol am gyflwr y claf milfeddygol
15. gwaredu deunyddiau dros ben a gwastraff yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau ymarfer milfeddygol
16. cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol iechyd a lles anifeiliaid
17. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau ymarfer milfeddygol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pam y mae'n bwysig gweinyddu'r cymorth cyntaf gofynnol a chynorthwyo gyda'r gwaith o gadarnhau cyflwr y cleifion milfeddygol 2. sut i asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun a chydweithwyr wrth weinyddu cymorth cyntaf brys a chynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu triniaeth frys i gleifion milfeddygol 3. pwysigrwydd dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol (PPE) gofynnol wrth weinyddu cymorth cyntaf brys a chynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu triniaeth frys i gleifion milfeddygol 4. gweithdrefnau gofynnol rheoli heintiau ymarfer milfeddygol ar gyfer yr ardal o'r filfeddygfa lle'r ydych yn gweithio 5. arwyddion cyflyrau clinigol mewn cleifion milfeddygol sydd angen cymorth cyntaf 6. y bygythiad i fywyd y claf milfeddygol a gyflwynir gan weithdrefnau cymorth cyntaf 7. sut i asesu anghenion lles anifeiliaid y claf milfeddygol a sut gellir mynd i'r afael â nhw 8. sut i sefydlogi cleifion milfeddygol â chyflyrau gwahanol a sut i flaenoriaethu triniaeth cymorth cyntaf 9. pam y mae'n bwysig hysbysu'r cleient ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd ar y claf milfeddygol 10. egwyddorion cymorth cyntaf anifeiliaid 11. y protocolau ymarfer milfeddygol sy'n berthnasol i ddarparu cymorth cyntaf a thriniaeth frys i gleifion milfeddygol yn eich milfeddygfa 12. sut i weinyddu mathau gwahanol o gymorth cyntaf i gleifion milfeddygol 13. yr arwyddion bod y cymorth cyntaf yn gweithio 14. pam y mae'n bwysig hysbysu'r llawfeddyg milfeddygol ynghylch pryderon am gyflwr y claf milfeddygol 15. eich cyfrifoldebau o ran iechyd a lles anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol 16. eich cyfrifoldebau proffesiynol fel nyrs filfeddygol gofrestredig 17. eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Geirfa

Angen Iechyd a Lles Anifeiliaid:
am amgylchedd addas (lle i fyw)
am ddeiet addas.
i arddangos patrymau ymddygiad arferol.
i gael eu rhoi gyda, neu ar wahân i, anifeiliaid eraill (os yn berthnasol)
i gael eu diogelu rhag poen, anaf, dioddefaint a chlefydau.

LANRVN12

Gweinyddu cymorth cyntaf brys a chynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu triniaeth frys i gleifion milfeddygol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANRVN17 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Nyrs milfeddygol |
| **Cyfres/Set** | Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Ategol |
| **Geiriau Allweddol** | cymorth cyntaf brys; triniaeth frys; gofal anifeiliaid |